ARGYMHELLION IS BWYLLGOR CYFRAITH A THREFN
NOS IAU 7fed IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Annwen Daniels
Rory Francis
Will G Roberts
Kevin Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym

**DATGAN DIDDORDEB**
**Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb**

Cynghorydd Will G Roberts - Cadeirydd

1. **Ethol Cadeirydd**
   Etholwyd y Cynghorydd Will G Roberts yn Gadeirydd yr Is Bwyllgor

2. **Camerâu Cylch Cyfun**
   Bu i'r cyfarfod drafod gosod cytundeb cynnal a chadw ar gyfer y camerâu o £432 y flwyddyn ar sail arolygiad misol.
   **Argymell -** I dderbyn y pris**.**

   Bu i'r cyfarfod drafod newid i sustem ble bydd mynediad i'r camerâu o swyddfa'r Cyngor. Golygir hyn bod Clerc y Dref yn gallu cadw llygaid bod pob camera yn gweithio'n iawn a hefyd bydd yn sicrhau bod ffurflenni gwarchod data yn cael eu cwblhau bob tro bydd mynediad i'r camerâu.
   **Argymell -** I dderbyn pris o £1,152.00 ar gyfer gosod y sustem yn y swyddfa ac i drefnu bod y Cadeirydd ac aelod o'r heddlu yn ymweld â phob busnes sydd gyda chamerâu'r Cyngor Tref wedi eu gosod arnynt i egluro na fydd unrhyw un yn gallu gweld unrhyw ddata cyfrinachol.